

# Saul ar ei Ffordd i Ddamascus

**Lambsongs.co.nz** **Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)** **Lluniau gan Richard Gunther**




Ysgrifennodd Paul, athro beiblaidd gwych, lawer iawn o bethau sydd yn y Testament Newydd. Ond doedd o ddim yn adnabod Iesu ar un adeg. Bryd hynny ei enw oedd Saul.



Roedd Saul yn caru Duw, ond roedd yn flin gynddeiriog gyda’r bobl oedd yn caru ac yn dilyn Iesu. Doedd Saul ddim wedi deall fod Iesu’n Fab Duw.




Gofynnodd Saul i’r arweinydd pwysicaf yn y Deml am ganiatâd i fynd i Ddamascus er mwyn dal ac arestio dilynwyr Iesu. Roedd Saul yn meddwl y byddai Duw wedi’i blesio’n fawr iawn am iddo wneud y fath beth.



Wrth iddo deithio ar hyd y ffordd i Ddamascus, yn sydyn, disgleiriodd goleuni llachar o’r nefoedd. Roedd Saul wedi dychryn gymaint fe syrthiodd yn un swp ar y llawr.




Yna fe glywodd lais o’r nefoedd yn dweud, “Saul, Saul, pam wyt ti’n gweithio mor galed i rwystro fy nghynlluniau i?’



Iesu oedd yn siarad â Saul.“Iesu ydw i. Rwyt ti’n brifo dy hun drwy fy mrifo i,” meddai’n dyner wrth Saul. “Dos i ddinas Damascus. Mae gen i waith i ti i’w wneud.”



Pan oedd y golau llachar wedi cilio, ni allai Saul weld o gwbl. Roedd y bobl oedd gydag ef yn methu â deall beth oedd wedi digwydd.



Ond,roedd Saul wedi newid yn gyfan gwbl. Nawr roedd ei galon yn llawn cariad tuag at Iesu. Roedd o eisiau i bawb wybod am Iesu. Yn nes ymlaen, newidiodd Duw ei enw o Saul i Paul.